Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Ansawdd Archwilio 2021

## Datblygu ymddiriedaeth mewn archwilio

Hydref 2021

Mae’r Adroddiad Ansawdd Archwilio hwn yn trafod ein gweithgarwch trefnu a monitor ansawdd archwilio dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn cynnwys yn **Atodiad 1** gwybodaeth adrodd ar dryloywder statudol yng nghyswllt archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o endid budd cyhoeddus.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân gyda’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio’n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau y mae angen manylder cyfreithiol ynddynt.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion isod.


Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
Ebost info@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru
Twitter @WalesAudit


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cefnogi craffu effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?







Cynllun Blynyddol 2021-22.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pwysigrwydd ansawdd archwilio | 5 |
| Fy ngweledigaeth ar gyfer archwilio | 7 |
| Sylwadau annibynnol | 10 |
| Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru | 12 |
| Rhan 2: Sicrhau ansawdd archwilio | 17 |
| Rhan 3: Canlyniadau ansawdd archwilio | 28 |
| Atodiad 1: Gofynion datgelu’r adroddiad tryloywder | 32 |
| Eich cefnogi chi | 35 |

# Pwysigrwydd ansawdd archwilio

Bu tarfu eithriadol ar ein bywydau beunyddiol dros y 18 mis diwethaf wrth i ni fyw drwy'r cyfyngiadau newidiol sydd wedi bod yn ofynnol i ymdrin â phandemig COVID-19. Rydym wedi bod angen i'n gweision cyhoeddus ymateb i heriau digynsail, y maent wedi ei wneud gyda phenderfyniad ac ymrwymiad anhunanol. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau mwy fyth ar ffurf argyfwng iechyd cyhoeddus; argyfwng economaidd; ac argyfwng a achoswyd gan y newid yn yr hinsawdd.

Fodd bynnag, mae gwersi hanes yn dweud wrthym y gallwn ddod o hyd i atebion gwell a mwy radical i'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ymateb i helbul o'r fath pan fyddwn yn barod i ailystyried hen syniadau, cynnal meddylfryd arloesol, ac achub y blaen.

Mae llywodraeth effeithiol, dryloyw, yr ymddiriedir ynddi yn hanfodol i'r ymdrech hon. Ond yn fyd-eang, mae ymddiriedaeth mewn llywodraethau a sefydliadau llywodraethol wedi bod yn dirywio yn raddol dros flynyddoedd lawer.

Mae gan archwilio, felly, ran sylweddol i'w chwarae o ran cynorthwyo llywodraeth i ymateb i un o'r agendâu adeg heddwch mwyaf y mae wedi ei wynebu: mae gennym ddyletswydd hanfodol i ddwyn llywodraeth i gyfrif: i daflu goleuni lle mae angen ei daflu a helpu i fagu hyder ac ymddiriedaeth mewn llywodraeth lle mae'n eu haeddu.

Rydym yn amlinellu yn ein Cynllun Blynyddol 2021-22 ein huchelgais i fod yn llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo. Llais sy'n:

- rhoi sicrwydd ynghylch a yw trefniadau llywodraethu ar ôl y pandemig yn effeithiol a pha un a yw cynlluniau adfer yn gadarn;
- esbonio pa mor dda mae Cymru yn ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu ac yn amlinellu'r heriau pellach yn y dyfodol; ac
- yn ysbrydoli cyrff cyhoeddus i ddatblygu atebion newydd ac arloesol gan ailadrodd cyflymder y newid a welwyd yn ystod y pandemig.

Ond, yn ddiweddar, rydym hefyd wedi gweld pwyslais cyhoeddus digynsail ar archwilio ac ansawdd archwilio.

Yn y sector preifat, mae adolygiadau Brydon, Kingman, a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (gweler **Rhan 1**) wedi gwneud argymhellion ysgubol ar gyfer diwygio mewn ymateb i fethiannau corfforaethol uchel eu proffil. Roedd ymateb diweddar Llywodraeth y DU yn ei ymgynghoriad ar ymddiriedaeth mewn archwilio a llywodraethu yn cynnig newidiadau dwfn i'n dealltwriaeth hanesyddol o archwilio.

Ac nid yw'r sector cyhoeddus wedi osgoi beirniadaeth chwaith, wrth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus San Steffan ddweud y gallai'r system archwilio ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr gyrraedd torbwynt yn fuan heb gamau brys gan lywodraeth.

Er bod y model archwilio sector cyhoeddus yng Nghymru yn wahanol ac yn fwy cadarn yn ein barn ni, ni ddylem fod yn hunanfodlon. Nid ydym yn ddiogel rhag y newidiadau mawr sydd ar fin taro'r proffesiwn archwilio. Os ydym yn mynd i lwyddo yn yr uchelgeisiau yr ydym yn eu hamlinellu, mae'n hanfodol bod ein gwaith o'r safonau uchaf ac yn haeddu ymddiriedaeth.

Dyma pam mae gennym ymrwymiad cyffredin a llwyr i ansawdd archwilio â phwyslais diwrthdro ar welliant parhaus yr ansawdd hwnnw, ac ar yr angen i ymateb i'r gofynion sy'n cynyddu'n barhaus ar archwiliadau, a'r disgwyliadau ohonynt.

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am ddarparu adnoddau a chyflogi staff i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i wneud y gwaith hwn. Yn unol â'n hymrwymiad i ansawdd archwilio, cwestiwn sylfaenol y mae'r Bwrdd yn ei ofyn wrth wneud unrhyw benderfyniad mawr yw, 'Beth allai hyn ei olygu i ansawdd archwilio?' Trwy wneud hynny, rydym yn sicrhau bod ansawdd archwilio yn ganolog i'n proses o wneud penderfyniadau sefydliadol.

Rydym yn gwbl ymwybodol bod y proffesiwn archwilio wedi cyrraedd trobwynt. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan o arwain y drafodaeth ynghylch ffurf archwilio yn y dyfodol ac i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am ddatblygu ein model archwilio yn unol â datblygiadau yn y proffesiwn archwilio ehangach.

Rydym o'r farn y gellir sicrhau ymddiriedaeth mewn archwilio dim ond trwy ddeialog agored a thryloyw am ein sefyllfa bresennol, lle'r ydym angen ei gyrraedd, a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno.

Drwy'r Adroddiad Ansawdd hwn felly, rydym yn cyflwyno ein lleoliad presennol ar ein taith ansawdd archwilio. Rydym o'r farn bod gennym stori dda i'w hadrodd ond mae mwy yr ydym yn dymuno ei wneud, ac yn wir y mae'n rhaid i ni ei wneud. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus. Ceir heriau o'n blaenau, ond rydym yn benderfynol y byddwn yn ymateb iddynt gydag egni, gyda synnwyr o bwrpas a chyda chyflymder i barhau i ddatblygu ymddiriedaeth yn ein gwaith ac yn Archwilio Cymru.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Fy ngweledigaeth ar gyfer archwilio

## Cyflwyniad

Fel y mae'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei amlygu, mae sicrhau safonau uchel o ansawdd archwilio yn hanfodol i wireddu ein huchelgeisiau fel Archwilio Cymru.

Nid yw'n syndod felly, ers i mi gael fy mhenodi yn Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ym mis Mawrth 2021, bod fy mhwyslais diwyro wedi bod ar ein trefniadau ar gyfer sicrhau ein bod yn gwneud gwaith archwilio o ansawdd uchel ac ar ein prosesau ar gyfer monitro'r ansawdd hwnnw. Rydym yn defnyddio model Tair Llinell o Sicrwydd (gweler **Rhan 2**) i ddisgrifio'r trefniadau hynny yn eu cyfanrwydd. Sicrhau bod yr holl elfennau yn y model hwnnw yn gweithredu yn effeithiol ac yn gyfunol yw'r allwedd i sicrhau'r safonau ansawdd yr ydym yn dymuno eu sicrhau.

## Ein pobl

Mae ein pobl yn ganolog i'r trefniadau hynny. Mae sicrhau safonau uchel o ansawdd archwilio yn dibynnu ar unigolion medrus a brwdfrydig sydd wedi ymrwymo i sicrhau'r ansawdd hwnnw. Mae'n rhaid felly i ni allu denu, datblygu a chadw'r bobl iawn os ydym yn mynd i wireddu ein huchelgeisiau. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar greu profiad gwaith eang ac amrywiol lle mae archwilwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith; lle mae'r gwaith hwnnw yn ychwanegu gwerth at ein cymdeithas ac yn ennyn brwdfrydedd personol y rhai sy'n ei wneud; a lle gall ein pobl ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a thyfu a gwneud cynnydd fel unigolion.

Yn sylfaenol i'm gweledigaeth felly mae esblygu ein model gweithlu i sicrhau bod ein holl staff – o'n newydd ddyfodiaid i'n harweinwyr uwch – wedi ymgysylltu â'n gweledigaeth ac yn cael cyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu a gwneud cynnydd yn Archwilio Cymru.

## Gwneud ein gwaith

Os ydym yn mynd i wireddu'r uchelgeisiau hyn, mae'n rhaid i ni wneud ein gwaith yn y ffordd iawn – mewn ffordd sy'n magu hyder bod ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn seiliedig ar gorff cadarn o dystiolaeth archwilio.

Rydym wrthi'n gweithio ar hyn o bryd tuag at gyflwyno yn 2022 safonau archwilio newydd ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon a mabwysiadu am y tro cyntaf y safonau / egwyddorion archwilio perfformiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI) ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad (gweler **Rhan 2**).

Fy ngweledigaeth yw ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i foderneiddio ymhellach y ffyrdd yr ydym yn gwneud ein gwaith; i ganolbwyntio ar y meysydd iawn a thrwy wneud hynny, gwneud y broses archwilio mor effeithlon ag y gall fod; ac i sicrhau bod yr holl ganfyddiadau wedi'u seilio ar gorff cadarn o dystiolaeth archwilio.

# Technoleg archwilio

Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn croesawu potensial technolegau newydd a'n bod yn darparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i'n staff i fanteisio i'r eithaf ar botensial y technolegau hyn.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg archwilio (**Rhan 2**). Mae ein prosiect dadansoddeg data tair blynedd gychwynnol bellach yn rhan allweddol o'n rhaglen trawsnewid digidol ehangach yn Archwilio Cymru. Rydym yn gweithio ar gyfres o ddulliau a chymwysiadau i ymwreiddio dadansoddeg data yn ein gwaith ac mewn ffurfiau newydd o adrodd rhyngweithiol. Bydd ein platfform TG arfaethedig ar gyfer ein holl waith archwilio yn cefnogi ein hymgyrch i sicrhau ansawdd archwilio a gweithio mwy integredig ar draws Archwilio Cymru.

Yn hanfodol i'm gweledigaeth mae sicrhau ein bod yn harneisio potensial technolegau newydd i wella effeithlonrwydd archwilio, i gaffael gwell tystiolaeth archwilio ac i gynnig mwy o wybodaeth.

# Ansawdd archwilio

Rydym yn disgrifio yn **Rhan 2** y trefniadau sydd gennym ar waith i fonitro ansawdd ein gwaith, gan gynnwys mesurau rheoli ansawdd newydd yr ydym yn gweithio i'w mabwysiadu erbyn mis Rhagfyr 2022. Rydym yn disgrifio yn **Rhan 3** ganlyniadau elfennau ffurfiol y gwaith hwnnw.

Rwy'n croesawu ac yn cymeradwyo yn fawr y Sylwadau Annibynnol gan ein Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ar ein trefniadau ansawdd archwilio. Mae gennym sail dda i adeiladu arni ond mae mwy yr ydym yn dymuno ac angen ei wneud.

Fy ngweledigaeth yw ein bod yn defnyddio'r cyfle a gynigir gan y safonau rheoli ansawdd newydd, a chyflwyniad safonau INTOSAI, i werthuso ymhellach ein system rheoli ansawdd fel yr ymddiriedir ynddi i sicrhau ansawdd ein gwaith ac i gynorthwyo adrodd agored a thryloyw ar yr ansawdd hwnnw.

# Ein gwaith

Os ydym yn mynd i gael yr effaith yr ydym yn dymuno ei chael, mae angen i ni ganolbwyntio ar y meysydd iawn a darparu allbynnau archwilio sy'n sicrhau'r effaith honno.

Pwysleisiwyd gennym yn ystod pandemig COVID-19 yr angen i weithio gyda chyrff cyhoeddus a'u cynorthwyo i ymdrin â'r heriau yr oedd ein cymdeithas yn eu hwynebu. Mae'n rhaid i ni barhau i weithio yn y ffordd fwy cydweithredol hon. Darparwyd elfennau o'n gwaith mewn ffyrdd gwahanol a mwy creadigol hefyd, fel ein prosiect dysgu o COVID. Ac mae'n rhaid i ni barhau i arloesi i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o wneud ein gwaith. Mae cadw'r ddwy elfen hyn yn hanfodol i wireddu ein huchelgeisiau gan barhau i ddarparu her adeiladol ac annibynnol i'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio wrth iddynt weithio i adfer yn sgil y pandemig.

Rydym hefyd yn newid y ffordd yr ydym yn adrodd ar ein gwaith. Rydym eisiau bod yn llais awdurdodol, eglur, annibynnol yr ymddiriedir ynddo sy'n ysbrydoli ac yn grymuso arloesedd. Bydd ein hadroddiadau yn fwy eglur, yn fwy uniongyrchol ac yn atseinio â chynulleidfa ehangach felly.

Hanfod fy ngweledigaeth yw ein bod yn gwneud gwaith o ansawdd uchel, prydlon, hygyrch a pherthnasol i roi sicrwydd cadarn ynghylch gwasanaethau cyhoeddus; i esbonio yn eglur y materion y mae cyrff cyhoeddus yn ymdrin â nhw; ac i ddarparu cymorth adeiladol i ysbrydoli'r gwasanaethau hynny i wella ar gyfer ein cymdeithas bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

## Datblygiadau yn y proffesiwn ehangach

O edrych ar ddatblygiadau yn y proffesiwn archwilio ehangach, mae'n ymddangos ein bod ar drobwynt i'r proffesiwn â'r potensial o newid seismig a hanesyddol. Nid yw ein gwaith a'r model archwilio cyhoeddus yng Nghymru wedi'u heithrio o'r datblygiadau hyn. Ac ni ddylent fod. Mae'n hanfodol felly ein bod yn dylanwadu ar y drafodaeth barhaus ynghylch cyfeiriad y proffesiwn archwilio yn y dyfodol; ein bod yn barod i ddysgu o ddatblygiadau mewn rhannau eraill o'r proffesiwn; a'n bod yn barod i sicrhau bod gofynion penodol Cymru a'r sector cyhoeddus yn cael eu clywed a'u deall gan lunwyr polisi.

Fy ngweledigaeth gyffredinol ar gyfer dyfodol archwilio yw bod y model archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i fod yn berthnasol a chadarn; yn cyd-fynd ag arfer proffesiynol gorau ar draws y byd; ac yn briodol haeddiannol o ymddiriedaeth. Mae'n ddyletswydd arnom i bobl Cymru i wireddu'r weledigaeth hon ac mae'n rhaid i ni barhau i fuddsoddi i ddarparu'r gwaith archwilio ansawdd uchel sydd ei angen ar ein cymdeithas.



**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio

# Sylwadau annibynnol

## Cyflwyniad

Rwy'n cyflwyno isod yr adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i mi, fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd ein Pwyllgor Ansawdd Archwilio, ei ddarparu i'r Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar:

- addasrwydd yr adnoddau a neilltuwyd i'n trefniadau ansawdd archwilio; ac
- effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Fel yr amlinellwyd mewn rhannau eraill o'r Adroddiad hwn, rydym yn gweld pwyslais sylweddol a chynyddol ar archwilio ac ar ansawdd yr archwilio hwnnw. Fel y mae'r Archwilydd Cyffredinol a'n Cadeirydd yn ei amlinellu, mae ansawdd archwilio yn ganolog i bopeth yr ydym yn dymuno ei gyflawni fel Archwilio Cymru. Mae'n hanfodol felly ein bod yn cynnal safonau uchel o ansawdd archwilio os ydym yn mynd i gadw a gwella ein sefyllfa fel llais awdurdodol, annibynnol, yr ymddiriedir ynddo.

## Addasrwydd adnoddau

Rwyf wedi bod yn bryderus dros y blynyddoedd diwethaf am lefel yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo a datblygu ein trefniadau ansawdd archwilio. Mae'r pryderon hyn, a adlewyrchir ar ein cofrestr risg strategol ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon, yn deillio o oediadau yn adolygu ac yn ailstrwythuro'r tîm sy'n gyfrifol am reoli ein gweithgarwch ansawdd archwilio ac yna llenwi'r swyddi gwag hynny.

Roeddwn yn falch o weld nifer aelodau'r tîm yn cynyddu, yn weithredol o 1 Ebrill 2021, ac yna o weld recriwtio i'r swyddi gwag hynny. Roeddwn hefyd yn falch o weld buddsoddiad pellach yn y tîm ac mewn ansawdd archwilio yn ehangach gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio yn syth ar ôl ei phenodiad ym mis Mawrth 2021.

Rwy'n dal i fod yn bryderus am ein gallu i ymateb i'r lefel o ddatblygiadau allanol gan hefyd ymateb i'r ôl-groniad o waith sydd wedi casglu yn y tîm. Rwy'n cefnogi pwyslais parhaus Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ar ansawdd archwilio ac ar sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i barhau i wireddu ein huchelgeisiau o wneud gwaith archwilio o ansawdd uchel.

## Effeithiolrwydd trefniadau

Er gwaethaf y pwysau o ran adnoddau a nodwyd uchod, rwy'n credu bod gennym drefniadau sydd wedi'u hen sefydlu ar waith i fonitro ansawdd ein gwaith archwilio cyfrifon, gan gynnwys contract ar gyfer monitor allanol gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) (gweler **Rhan 3** yr adroddiad hwn).

Fodd bynnag, ymrwymwyd diffyg adnoddau i reoli ansawdd archwilio perfformiad ers ymddeoliad yn ystod haf 2019 y rheolwr a oedd yn gyfrifol am y trefniadau hynny yn flaenorol. O ganlyniad, prin fu'r gwaith adolygu ansawdd archwilio perfformiad yn ystod y cyfnod hwnnw a gweithgarwch cyfyngedig i gefnogi datblygiad trefniadau ansawdd archwilio perfformiad. Rwy'n falch o weld bwriad Cyfarwyddwr Gweithredol y

Gwasanaethau Archwilio i fabwysiadu safonau / egwyddorion archwilio perfformiad INTOSAI ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad – yr wyf o'r farn fydd yn cynnig fframwaith mwy effeithiol ar gyfer gwerthuso ansawdd y gwaith hwnnw – a phenodiad Rheolwr Ansawdd Archwilio Perfformiad newydd o 1 Gorffennaf 2021 (ac Arweinydd Archwilio Perfformiad o fis Awst 2021).

Rwy'n nodi bod amseriad ein holl waith adolygu ansawdd wedi cael ei effeithio i wahanol raddau gan bandemig COVID-19 a chan y diffyg adnoddau yr wyf i wedi eu hamlinellu uchod ond bod y rhaglen adolygu wedi'i chwblhau erbyn hyn.

Rwyf o'r farn y bydd y treialon a sefydlwyd gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio i ehangu rhaglen adolygu'r QAD yn 2021 yn helpu i gryfhau ymhellach ein holl weithgarwch monitor ansawdd, gan gynnwys ei brydlondeb. Os byddant yn llwyddiannus, hoffwn weld y trefniadau hynny yn parhau ym mlynyddoedd y dyfodol.

Rwyf wedi bod yn falch dros ben o gadeirio ein Pwyllgor Ansawdd Archwilio newydd dros y flwyddyn ddiwethaf a hoffwn gofnodi fy niolch i aelodau proffesiynol annibynnol y Pwyllgor – Pamela McCreedy a Suzanne Walsh – am eu cyfraniad rhagorol at waith y Pwyllgor dros y cyfnod hwn. Rwyf o'r farn y bydd y Pwyllgor, ei aelodaeth annibynnol a swyddogaeth Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio i gyd yn gwneud cyfraniad mawr at sicrhau manwl gywirdeb parhaus a datblygiad pellach ein trefniadau ansawdd archwilio ac yn helpu i gynyddu hyder yn y trefniadau hynny ymhellach.

Gan edrych ymlaen, mae'r agenda yn arbennig o heriol. Mae angen i ni ymateb - a chael ein gweld yn ymateb - i ddisgwyliadau cynyddol cymdeithas o waith archwilio. Mae angen i ni fod yn barod ac yn ab li ymateb i heriau posibl yn yr amgylchedd archwilio yn deillio o ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ymddiriedaeth mewn archwilio. Ac mae angen i ni barhau i weithredu erbyn mis Rhagfyr 2022 safonau rheoli ansawdd newydd y Cyngor Adrodd Ariannol tra hefyd yn parhau i esblygu ein trefniadau ansawdd archwilio yn fwy cyffredinol. Fel y mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio yn ei amlinellu, bydd hyn oll yn gofyn am fuddsoddiad a byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd fel sy'n angenrheidiol ar addasrwydd yr adnoddau sy'n cael eu neilltuo i ansawdd archwilio ac ar addasrwydd ein trefniadau sy'n esblygu.



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol

# Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru

## Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian sy'n cael ei bleidleisio'n flynyddol gan y Senedd. Mae elfennau sylweddol o'r cyllid hwn yn cael eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi'i gyfansoddi fel bwrdd statudol, yn gyfrifol am ddarparu adnoddau, fel staff, ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

3 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gellir arfer y swyddogaethau hyn gyda'i gilydd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.


4 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tua £21 biliwn o incwm a gwariant, sydd dros chwarter Cynnyrch Domestig Gros Cymru. Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth adnoddau dynol a naturiol ochr yn ochr â'n hystyriaeth o adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyfrif am eu defnydd.

5 Rydym hefyd yn nodi arfer da o bob rhan o'n gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

6 Rydym yn ymgymryd â'n gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y mae gwaith archwilio a rhai swyddogaethau eraill i fod i gael eu cyflawni ac yn ymgorffori'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn arfer proffesiynol gorau.

7 Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a gyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

**Exhbit 1: ein gwaith craidd**




8 Mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglen waith ar gael yn ein Cynllun Blynyddol 2020-21.

# Ein huchelgeisiau strategol

9 Rydym wedi nodi pedwar uchelgais eang ac, ar gyfer pob uchelgais, dri amcan strategol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n disgrifio'r llwybr rydyn ni'n ei gymryd tuag at gyrraedd ein potensial llawn fel sbardun ar gyfer newid a gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

**Arddangosyn 2: ein huchelgeisiau strategol**

**Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw**

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

**Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo**

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

**Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol**

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

**Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt**

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

# Pandemig COVID-19

10 I gynifer o sefydliadau mae'r 18 mis diwethaf wedi bod yn anodd iawn gan ein bod wedi byw drwy heriau dyddiol y pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn, ein prif ffocws yn Archwilio Cymru fu llesiant staff a llesiant yn gyffredinol – yn Archwilio Cymru ac yn y cyrff rydym yn eu harchwilio. Mabwysiadwyd mantra gennym, sef, Hunan – Teulu – Gwaith i danlinellu'r dull hwn.

11 Yn ystod camau cynnar y pandemig, wrth i wasanaethau cyhoeddus reoli eu hymateb uniongyrchol, gohiriwyd gwaith ar-safle mewn cyrff a oedd yn cael eu harchwilio, diwygiwyd ein terfynau amser a'n disgwyliadau, a symudwyd ein holl staff i weithio gartref fel y gallem barhau i ymgysylltu o bell.

12 Parhawyd gyda'n gwaith archwilio cyfrifon statudol i gynnig golwg yr ymddiriedir ynddo ar gyflwr cyllid cyhoeddus. Dysgwyd ffyrdd newydd o weithio, ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth a ffyrdd newydd o gael gafael ar dystiolaeth archwilio. Ac rydym yn arbennig o ddiolchgar i'n holl dimau a'r staff yn y cyrff yr ydym yn eu harchwilio am y ffordd y gwnaethant ymateb i'r heriau a pharhau i ddarparu gwaith o ansawdd uchel yn brydlon.

13 Datblygwyd dulliau newydd gennym hefyd o ran y ffordd yr oeddem yn ymgysylltu â chyrff yr ydym yn eu harchwilio. Un enghraifft o'r fath oedd ein 'prosiect dysgu o COVID-19'. Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar helpu cyrff cyhoeddus i nodi a rhannu yr hyn yr oeddent yn ei ddysgu mewn amser real ynghylch materion fel rheoli'r galw am wasanaethau a phwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu ystwyth.

14 Wrth i ni adfer yn sgil y pandemig, mae angen i ni ofyn bellach sut mae llywodraethu da yn edrych yn y dyfodol. Beth allwn ni ei ddysgu o brofiad y pandemig i gynorthwyo proses gwneud penderfyniadau gyflymach a mwy hyblyg heb golli'r elfen hanfodol honno o graffu cyhoeddus a gwleidyddol sy'n hogi ac yn gwella prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

15 Gan edrych ymlaen, bydd gan ein gwaith archwilio bwyslais deuol: gweithio gyda chyrff cyhoeddus a'u cynorthwyo i ymdrin â'r heriau y mae ein cymdeithas yn eu hwynebu – a chadw'r hyn a weithiodd yn dda yn ystod y pandemig – gan barhau i'w dwyn i gyfrif i ofalu eu bod yn sicrhau gwerth am arian wedi'i ategu gan drefniadau llywodraethu cryf a thryloyw.

## Datblygiadau yn y proffesiwn archwilio ehangach

16 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei dogfen ymgynghori **Restoring trust in audit and corporate governance**. Roedd hon yn ymateb i'r argymhellion a wnaed mewn adolygiadau a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ac a gynhaliwyd gan Syr John Kingman, Syr Donald Brydon a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar yr angen i gryfhau gwahanol agweddau ar y trefnau llywodraethu ac archwilio corfforaethol a rheoleiddio archwilwyr yn y sector preifat.

17 Er ei bod ar gyfer y sector corfforaethol, ceir goblygiadau eang posibl i'r proffesiwn archwilio cyfan. Wrth ymateb – fel Archwilio Cymru ac ar y cyd ag archwilwyr cyffredinol eraill y DU – rydym wedi annog y Llywodraeth i ymgynghori â'r sector cyhoeddus i ddeall sut gallai ei chynigion effeithio ar y proffesiwn archwilio cyfan.

18 Mae trefniadau archwilio llywodraeth leol yn Lloegr hefyd wedi bod yn destun craffu yn dilyn adolygiad gan Syr Tony Redmond ac ymateb Llywodraeth y DU. Er nad yw'r adolygiad hwn yn effeithio arnom yn uniongyrchol, rydym yn bryderus am yr effeithiau posibl i'r proffesiwn archwilio ehangach ar ôl i Adolygiad Redmond a gwrandawiad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus San Steffan ddweud bod y farchnad archwilio leol yn Lloegr yn fregus.

19 Mae'r adolygiadau amrywiol hyn yn adlewyrchu'r disgwyliadau cynyddol o waith archwilio – ac ansawdd y gwaith archwilio hwnnw – yn ein cymdeithas wrth i strwythurau corfforaethol ddod yn fwyfwy cymhleth; wrth i'r galw am wasanaethau cyhoeddus barhau i gynyddu; ac wrth i ni weithio i adfer yn sgil effeithiau difrifol pandemig COVID-19.


# Rhan 2: Sicrhau ansawdd archwilio

## Sut rydym yn sicrhau ansawdd archwilio

20 Rydym yn disgrifio yn **Rhan 1** yr Adroddiad hwn sut mae disgwyliadau cymdeithas o ansawdd archwilio yn parhau i gynyddu. Yn ôl yr awdur a'r athronydd o oes Fictoria, John Ruskin, nid yw ansawdd byth yn ddamwain. Mae bob amser yn ganlyniad o ymdrech ddeallus. Mae hyn yr un mor wir am ansawdd archwilio. Mae archwilio o ansawdd uchel yn gofyn am dimau ymroddedig o ansawdd uchel sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am sicrhau ansawdd archwilio ac sy'n cael eu cynorthwyo yn y ffordd iawn.

21 Rydym yn defnyddio model tair llinell o sicrwydd i ddangos sut rydym yn gwneud hyn.


**Arddangosyn 3: ein model tair llinell o sicrwydd**



## Ail linell o sicrwydd: Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio




## Trydedd linell o sicrwydd: Sicrwydd annibynnol



22 Caiff y **llinell gyntaf o sicrwydd** ei ffurfio gan ein staff a’n rheolwyr sy’n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am sicrhau’r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dymuno eu sicrhau. Mae angen iddynt fod â’r wybodaeth, y sgiliau, a’r cymorth angenrheidiol i wneud hyn.

23 Caiff yr **ail linell o sicrwydd** ei ffurfio gan y polisïau, y dulliau, y dysgu a’r datblygu, y cyfarwyddyd, a’r arweinyddiaeth yr ydym yn eu darparu i’n staff i’w cynorthwyo i sicrhau’r safonau hynny o ansawdd archwilio.

24 Caiff y **drydedd linell o sicrwydd** ei ffurfio gan y gweithgareddau hynny sy’n rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch effeithiolrwydd y ddwy linell gyntaf o sicrwydd ac yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus.

## Y llinell gyntaf o sicrwydd: ein pobl

25 Mae bod â’r staff cywir ag amser digonol i wneud gwaith archwilio yn hanfodol i sicrhau ansawdd archwilio. Mae'r un mor hanfodol bod y staff hynny yn mabwysiadu dull sy’n cwestiynu ac yn amheus ac yn derbyn cyfrifoldeb personol am ansawdd eu gwaith eu hunain.

26 Rydym yn gweithredu prosesau recriwtio wedi’u diffinio yn dda i sicrhau bod gan ein holl staff y cymhwysedd a’r galluoedd angenrheidiol i wneud eu gwaith. Ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon rydym wedi sefydlu llwybrau mynediad proffesiynol ac mae ymgeiswyr newydd yn ymuno naill ai fel prentisiaid AAT neu hyfforddeion ICAEW.

27 Un o’r heriau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd yw galw cynyddol yn y farchnad am gyfrifwyr ac archwilwyr sydd newydd gymhwyso. Rydym yn adolygu ein model gweithlu i wella ein gallu i gadw staff ar y radd hon.

28 Ar gyfer yr holl waith archwilio, rydym yn neilltuo cyfrifoldeb i arweinydd ymgysylltu sy’n gyfrifol am gyfeiriad cyffredinol y gwaith hwnnw ac am sicrhau bod gan y tîm archwilio yr wybodaeth, y sgiliau, a’r profiad angenrheidiol i wneud y gwaith. Mae’r arweinydd ymgysylltu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau’r tîm archwilio yn cael yr oruchwyliaeth a’r cymorth priodol i wneud eu gwaith.

29 Bydd adegau pan fydd agweddau ar ein gwaith yn cynnwys meysydd hynod arbenigol, ee adolygu rhagdybiaethau actiwaraidd pensiynau. Yn yr achosion hyn, rydym yn ymgysylltu ag arbenigwyr allanol â chymwysterau priodol i ddarparu cymorth ychwanegol i’n gwaith yn y meysydd penodol hyn. Mae datblygu arbenigwyr mewnol mewn meysydd penodol yn faes yr ydym yn canolbwyntio arno ar hyn o bryd wrth i ni ymateb i’r cymhlethdod sy’n cynyddu’n barhaus yr ydym yn ei wynebu wrth wneud ein gwaith.

## Yr ail linell o sicrwydd: trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

### Arweinyddiaeth a diwylliant

30 Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio yn atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am ansawdd ein holl waith archwilio, gan gynnwys y gwaith a wneir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chontractwyr allanol. Mae'n sicrhau bod ansawdd archwilio yn flaenllaw yn yr hyn yr ydym yn ei wneud trwy:

- bennu safonau personol ar gyfer ansawdd archwilio ac arwain drwy esiampl;
- ymwreiddio ansawdd archwilio yn ein strategaethau, ein diwylliant, ein gwerthoedd, ein cod ymddygiad a'n dulliau archwilio;
- hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd archwilio trwy ein system gwerthuso perfformiad;
- rhoi negeseuon rheolaidd, agored, ac eglur i staff am bwysigrwydd ansawdd archwilio; a
- sefydlu llinellau eglur o gyfrifoldeb am ansawdd archwilio.

31 Mae ein diwylliant yn un sydd wedi ymrwymo i welliant parhaus ac i gynorthwyo ein staff i gyflawni'r gwelliant hwnnw, trwy ddysgu a datblygu a'n trefniadau rheoli perfformiad.

### Moeseg

32 Trwy God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn mabwysiadu ac yn gweithredu'r Safon Foesegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol yn ein holl waith.

33 Un o nodweddion allweddol archwilwyr yw'r gofynion i ni fod yn annibynnol ar y rhai yr ydym yn eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y ddarpariaeth o waith archwilio ond annibyniaeth penodiadau hefyd. Mae'r annibyniaeth hon yn cefnogi ein harfer o amheuaeth broffesiynol ac yn caniatáu i ni ddod i gasgliadau yn wrthrychol heb gael ein heffeithio gan ddylanwadau a allai beryglu ein crebwyll proffesiynol.

34 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r swydd yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff penodiadau eu gwneud gan y Frenhines ar sail enwebiad gan y Senedd. Caiff Archwilwyr Cyffredinol eu penodi am gyfnod sefydlog o wyth mlynedd a gallant gael eu diswyddo gan y Frenhines o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig. Mae tâl cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei godi yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n cynnal annibyniaeth y swydd.

35 Mae ein Cod Ymarfer Archwilio a'n Cod Ymddygiad i staff yn atgyfnerthu pwysigrwydd annibyniaeth a gwrthrychedd i'n gwaith. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff wneud datganiad blynyddol o annibyniaeth lle mae'n nodi unrhyw gysylltiadau â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio a allai amharu ar ei annibyniaeth. Pan fydd

unrhyw amhariadau o’r fath yn cael eu nodi, cymerir camau priodol i liniaru achosion posibl o wrthdaro buddiannau i lefel dderbyniol. Gall camau o’r fath gynnwys atal staff rhag gweithio ar archwiliadau penodol neu gyfyngu cwmpas cyfranogiad unigolyn mewn archwiliad penodol.

36 Mae Cod Ymddygiad ar wahân ar waith ar gyfer aelodau o’r Bwrdd y mae’n ofynnol iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau y gallai fod ganddynt mewn unrhyw fater ac y gallai fod yn ofynnol iddynt dynnu yn ôl o gyfarfodydd lle mae’r mater hwnnw yn cael ei ystyried.

37 Yn ogystal â’r gwaith statudol y mae’n ofynnol i’r Archwilydd Cyffredinol ei wneud, gall ymgymryd â rhywfaint o waith anstatudol o bryd i’w gilydd. Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau sefydledig i sicrhau bod gwaith o’r fath yn cael ei wneud dim ond pan fydd y capasiti a’r gallu gennym i wneud y gwaith hwnnw a phan na fyddai derbyn penodiad o’r fath yn amharu ar annibyniaeth statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

38 Pan rydym wedi penodi cwmnïau preifat yn hanesyddol i wneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae wedi bod yn ofynnol iddynt fod a threfniadau tebyg ar waith i fonitro a rheoli unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth yr archwiliadau y maent yn eu cynnal. Mae gennym weithdrefnau ar waith i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

39 Rydym hefyd wedi cyhoeddi Polisi Cylchdro sy’n llywodraethu pa mor hir y gall aelodau staff gymryd rhan yng nghyfarwyddyd unrhyw archwiliad penodol. Nod y polisi yw sicrhau cydbwysedd rhwng natur bennaf annewisol gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, maint cymharol fach Swyddfa Archwilio Cymru a gofynion y Safon Foesegol.

40 Darperir hyfforddiant i staff yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o’n polisïau a’n gweithdrefnau annibyniaeth.

## Canllawiau a dulliau archwilio

41 Un elfen bwysig o sicrhau ansawdd archwilio yw sefydlu dulliau safonol o wneud ein gwaith.

42 Caiff ein gwaith archwilio perfformiad ei wneud yn unol â’n Llawlyfr Cyflawni Archwiliadau Perfformiad. Rydym wrthi’n adolygu ac yn diweddaru’r Llawlyfr hwn ar hyn o bryd i’w seilio ar y safonau / egwyddorion ar gyfer archwilio perfformiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Yn rhan o’n cyflwyniad o safonau / egwyddorion INTOSAI, rydym yn adolygu ein holl brosesau archwilio perfformiad presennol ac yn gwerthuso ein trefniadau rheoli ansawdd ar adegau allweddol yn y broses honno.

43 Mae ein Llawlyfr Cyflawni Archwiliadau Ariannol yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal ein holl waith archwilio cyfrifon. Rydym wrthi’n diweddaru’r Llawlyfr hwn i gymryd i ystyriaeth newidiadau sylfaenol i safonau archwilio, sy’n weithredol ar gyfer ein harchwiliadau 2022-23.

44 Rydym hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ardystio sy’n nodi canllawiau ar wneud gwaith ardystio grantiau.

45 Trwy ein dulliau, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd archwilio a swyddogaeth pob aelod o staff i gyrraedd y lefelau disgwyliedig o ansawdd archwilio. Bwriedir i'r dulliau hyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gweithredu dyfarniadau a gweithdrefnau cyson yn ein holl waith archwilio ac fe'u hategir gan systemau rheoli dogfennau a chofnodion (gweler **platfformau archwilio**), sydd eto yn hybu cysondeb ac ansawdd archwiliadau.

46 Rydym yn parhau i ddatblygu a defnyddio amrywiaeth o ddulliau dadansoddi data a chyfrifiadurol eraill wrth wneud ein gwaith i'n caniatáu i ymchwilio yn effeithiol llawer iawn o ddata cymhleth ac i gyflwyno ein canfyddiadau mewn fformatau sy'n fwy hygyrch yn weledol. Rydym yn bwriadu cyflymi'r rhaglen honno yn ystod y 18 mis nesaf.

## Cymorth technegol

47 Caiff ein holl archwilwyr eu cefnogi gan ein tîm Datblygiad a Chyfarwyddyd Archwilio, sy'n darparu cyfarwyddyd a chyngor arbenigol ar amrywiaeth o faterion technegol a phroffesiynol. Fel y mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn nodi yn ei Adroddiad Annibynnol, bu diffyg capasiti yn y tîm hwn ers cryn amser fel yr adlewyrchwyd ar y gofrestr risgiau strategol. Bydd yr holl swyddi yn y tîm yn cael eu llenwi erbyn mis Hydref 2021 ac mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio wedi dyrannu cyllid 18 mis ychwanegol i'r tîm i'w fuddsoddi mewn gwaith datblygu critigol.

## Platfformau archwilio

48 Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio platfform archwilio masnachol i gofnodi ein gwaith archwilio cyfrifon a system SharePoint ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad. Rydym wedi datblygu system SharePoint newydd ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon i alinio ein systemau ar gyfer ein holl waith archwilio. Bydd y system SharePoint newydd yn cael ei threialu ar nifer o archwiliadau yn 2021-22 cyn cyflwyniad llawn arfaethedig ar gyfer archwiliadau 2022-23.

49 Mae defnyddio platfformau o'r fath yn caniatáu i ni gynyddu cysondeb o ran dogfennau a dulliau archwilio ac i ymgorffori archwiliadau ansawdd yn ein systemau.

50 Er bod safoni dulliau archwilio yn gwella ansawdd archwiliadau, ni all ddisodli'r angen am amheuaeth a chrebwyll effeithiol archwilwyr. Trwy ein rhaglenni dysgu a datblygu, rydym yn parhau i hybu'r sgiliau hyn gan ddiweddaru ein dulliau archwilio hefyd i ymwreiddio arferion gorau a chymryd datblygiadau proffesiynol newydd i ystyriaeth.

## Dysgu a datblygu

51 Rydym yn parhau i fuddsoddi'n drwm mewn dysgu a datblygu staff i wella sgiliau a gwybodaeth proffesiynol ein staff. Darperir lwfans arferol o ddeg diwrnod y flwyddyn i'r holl staff i gynorthwyo eu dysgu a datblygu proffesiynol.

52 Mae ein rhaglenni dysgu a datblygu blynyddol yn cynnwys dwy brif elfen:

- rhaglenni gorfodol: bwriedir i'r rhain sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn meysydd sgiliau technegol a chraidd newydd ac allweddol sy'n berthnasol i'w swyddi penodol; a
- dysgu 'yn ôl y galw': nodir hwn o adolygiadau datblygu perfformiad gan unigolion gyda'u rheolwyr llinell, a bwriedir iddo gefnogi datblygiad personol unigolion.

53 Rhennir canlyniadau ein prosesau monitro ansawdd (gweler **Y drydedd linell o sicrwydd**) gyda staff a chaiff ymatebion i unrhyw broblemau a nodir eu hymgorffori yn ein rhaglenni dysgu a datblygu yn ôl yr angen.

54 Mae'r ddarpariaeth o ddysgu a datblygu wedi bod yn her yn ystod y pandemig, ond rydym wedi symud i ddarpariaeth rhith-ystafell ddosbarth a dysgu ar-lein mewn ymateb i'r her hon. Er y gall y math hwn o ddarpariaeth fod yn effeithiol o dan lawer o amgylchiadau, mae'n arbennig o anodd i ddechreuwyr newydd a hyfforddeion a phrentisiaethau sydd angen mwy o hyfforddiant a chymorth wyneb yn wyneb. Rydym wedi blaenoriaethu'r angen i hyfforddeion gael y cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw yn ein dychweliad i strategaeth swyddfa wrth i ni weithio i adfer yn sgil y tarfu a achoswyd gan bandemig COVID-19.

55 Mae ein prosesau datblygu personol wedi cael eu hachredu yn systemau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) priodol i'n staff gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW), Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT).

56 Mae effeithiolrwydd ein buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol parhaus yn destun adolygu ac asesu parhaus. Yn benodol, cynhelir asesiadau cyfnodol rhwng unigolion a'u rheolwyr llinell o effeithiolrwydd y dysgu a sut y'i defnyddiwyd yn ymarferol.

57 Hefyd, mae gennym broses ddysgu ôl-brosiect ar gyfer prosiectau mawr (gan gynnwys archwiliadau) sy'n ceisio atgyfnerthu ein nod o fod yn sefydliad dysgu a rhannu sy'n ymdrechu'n barhaus i wella. Mae'r broses ddysgu ôl-brosiect hon yn canolbwyntio ar ystyried yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r ffordd y darparwyd y prosiect ac yn hybu ystyriaeth o:

- yr hyn a weithiodd yn dda;
- yr hyn y gellid fod wedi ei wella;
- sut roedd yn teimlo;
- tystiolaeth o effaith; a
- gwersi ar gyfer y dyfodol.

58 Dros y flwyddyn nesaf, wrth i ni weithredu safonau ansawdd archwilio newydd (isod), byddwn yn datblygu proses dadansoddiad o wraidd y broblem newydd, sy'n ddull systematig ar gyfer nodi prif achosion problem. Bydd hwn yn gyfle i adolygu ein dull o ddysgu ar ôl prosiect.

## Y drydedd linell o sicrwydd: sicrwydd annibynnol

### Adolygiadau oer

59 Adolygiadau o archwiliadau cyfan neu brosiectau archwilio yw adolygiadau oer, a gynhelir ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw i asesu cydymffurfiad â safonau ansawdd rhagnodedig. Caiff yr adolygiadau hyn eu hasesu yn erbyn system sgorio pedwar pwynt fel y disgrifir yn **Rhan 3** yr adroddiad hwn.

60 Mae gennym bolisi ffurfiol o adolygiadau oer cylchdro ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon ac mae archwiliadau yn cael eu dethol ar gyfer adolygiad yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- caiff pob arweinydd ymgysylltu ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd fel rheol (er bod hyn yn tueddu i fod yn flynyddol yn ymarferol); a
- chaiff pob rheolwr archwilio ei adolygu o leiaf bob pedair blynedd fel rheol.

61 Rydym hefyd yn ceisio sicrhau cwmpas cynrychiadol o'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio gan gymryd i ystyriaeth sectorau archwilio, maint y corff a chymhlethdod.

62 Cynhelir nifer o'r adolygiadau hyn gan gymheiriaid o asiantaethau archwilio eraill y DU, fel Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ac Audit Scotland.

63 Rydym hefyd yn gweithredu dull cylchdro o ymdrin â phrosiectau archwilio perfformiad, gyda'r nod o sicrhau cwmpas cynrychiadol o aelodau tîm uwch, y cyrff yr ydym yn eu harchwilio, a'r mathau o brosiectau archwilio.

64 Yn hanesyddol, rydym wedi gweithredu prosesu adolygu cymheiriaid archwilio perfformiad gydag asiantaethau archwilio eraill y DU, ond tarfwyd ar weithrediad y broses hon gan bandemig COVID-19. Rydym yn bwriadu ail-sefydlu'r broses hon.

### Monitro Allanol

65 Ar hyn o bryd, rydym ar ein trydydd contract ar gyfer monitro ansawdd allanol o waith archwilio cyfrifon gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). QAD yw'r rheoleiddiwr mwyaf o archwiliadau cwmnïau yn y DU a rheoleiddiwr archwiliadau llywodraeth leol yn Lloegr.

66 Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae QAD wedi cynnal dau adolygiad ffeil lawn (mae tua hanner ein cyfarwyddwyr archwilio cyfrifon bob blwyddyn) yn ogystal â gwaith arall.

67 Rydym yn ymestyn cwmpas adolygiadau QAD ac wedi cytuno gyda QAD y bydd yn adolygu un archwiliad 2020-21 ar gyfer pob un o'r pedwar cyfarwyddwr

archwilio cyfrifon. Y rhaglen adolygu hon fydd ein rhaglen adolygu oer ffurfiol ar gyfer 2020-21 a bydd QAD yn sgorio'r adolygiadau hynny am y tro cyntaf.

68 Yn hanesyddol, cyfyngwyd cylch gwaith QAD i adolygu ein gwaith archwilio cyfrifon. Fodd bynnag, rydym wedi comisiynu QAD i wneud gwaith ar sail beilot i adolygu sampl o waith archwilio perfformiad yn ystod 2021, er mwyn cael safbwynt allanol ar gydymffurfiad y gwaith hwnnw â'n safonau ansawdd.

## Adolygiadau thema

69 Adolygiadau heb eu sgorio o waith archwilio cyfrifon yw adolygiadau thema, sy'n ystyried materion penodol ar draws nifer o archwiliadau. Gallai'r rhain ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae safon archwilio wedi cael ei gweithredu yn ymarferol; nodi mater sy'n dod i'r amlwg ar draws y proffesiwn; neu feysydd o ddiddordeb neu bryder yn Archwilio Cymru. Yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd ein gwaith adolygu thema yn cynnwys busnes gweithredol mewn cwmnïau bach; archwilio amcangyfrifon mawr; archwilio gwybodaeth sefydliadau gwasanaeth; ac archwilio datganiadau atebolrwydd seneddol. Fe'u bwriedir fel ymarferion dysgu i nodi a oes angen rhagor o hyfforddiant, cyfarwyddyd, neu gymorth arall.

## Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu (EQCRs)

70 Adolygiadau o ffeiliau archwilio, neu rannau o ffeiliau archwilio a gynhaliwyd cyn cwblhau'r archwiliad yw EQCRs. Fe'u cynhelir gan gyfarwyddwyr cymheiriaid ac efallai y bydd eu hangen mewn nifer o amgylchiadau, fel pan fo arweinydd ymgysylltu newydd yn y swydd; pan gynigir adroddiad archwilio amodol; pan fydd yr arweinydd ymgysylltu yn gwneud cais am adolygiad cymheiriaid o fater technegol neu gymhleth; neu pan roedd problem ansawdd mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r adolygiadau hyn yn cael eu sgorio. Yn hytrach, fe'u cynhelir i ganolbwyntio ar feysydd o risg ac i ganiatáu i unrhyw faterion o bryder i'w datrys cyn i'r farn archwilio gael ei rhoi. Roedd ein gwaith EQCR yn 2020-21 yn cynnwys adolygiadau o archwiliadau Cyfarwyddwr dros dro; nifer o addasiadau arfaethedig i adroddiadau archwilio; yr adolygiad o'n harchwiliad endid buddiant cyhoeddus sengl (gweler **Atodiad 1**); a gwiriadau cysondeb yn ymwneud â materion cyffredin yn gysylltiedig â COVID-19.

## Pwyllgor Ansawdd Archwilio

71 Sefydlwyd y Pwyllgor Ansawdd Archwilio yn 2020 i gryfhau ein fframwaith ansawdd archwilio gyda golwg ar gynyddu tryloywder y trefniadau hynny a chynyddu hyder ynddynt. Mae'r Pwyllgor - sy'n cyfarfod bob tri mis yn unol â'r rhaglen waith yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol Archwilio Cymru (Cadeirydd);
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio Archwilio Cymru;

- Cyfarwyddwyr technegol archwilio ariannol ac archwilio perfformiad Archwilio Cymru;
- Rheolwyr ansawdd archwilio Archwilio Cymru; ac
- aelod proffesiynol annibynnol – Suzanne Walsh – cyfarwyddwr yn Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon[1].

72 Amcanion penodol y Pwyllgor yw ein cynorthwyo i sicrhau:

- bod y trefniadau sydd gan Archwilio Cymru ar waith i reoli a monitro ansawdd archwilio yn effeithiol ac yn cyd-fynd a safonau ansawdd rhyngwladol;
- bod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o safon ansawdd briodol ac yn bodloni'r gofynion a nodir yng nghanllawiau Archwilio Cymru a safonau proffesiynol (pan fo hynny'n berthnasol); a
- bod ansawdd archwilio yn parhau i wella yn unol ag arfer proffesiynol gorau.

73 Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb penodol am roi sicrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol bod adnoddau priodol ar waith i gynorthwyo'r gwaith o reoli, monitro a gwella ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru. Caiff hyn ei wneud gan Adroddiad Annibynnol Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n rhan o'r Adroddiad Ansawdd hwn.

## Cyswllt Bwrdd Ansawdd Archwilio

74 Mae Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno i weithredu fel Cyswllt Ansawdd y Bwrdd i gynorthwyo'r Bwrdd i ddatblygu dealltwriaeth lawnach o'n trefniadau ansawdd archwilio, o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o ran sicrhau ansawdd archwilio ac i gynyddu tryloywder y trefniadau hynny a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

75 Rydym o'r farn bod y swyddogaeth hon yn elfen bwysig o'n huchelgais i sicrhau gwelliant parhaus i ansawdd archwilio.

## Safonau rheoli ansawdd newydd

76 Bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i'n trefniadau rheoli ansawdd mewn ymateb i dair safon ansawdd newydd neu ddiwygiedig y bydd pob un ohonynt yn weithredol o 15 Rhagfyr 2022.

[1] Pamela McCreedy, cyn-Brif Swyddog Gweithredu Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon oedd yr aelod annibynnol gwreiddiol.

**Arddangosyn 4: safonau rheoli ansawdd newydd**

| | |
|---|---|
| **ISQM 1 - Rheoli Ansawdd ar Lefel Cwmni** | Mae'r safon yn cyflwyno gofynion ar gyfer system ragweithiol newydd o reoli ansawdd sy'n symud oddi wrth gofynion a ysgogir gan bolisi safonau presennol.<br><br>Mae'r safon hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i roi prosesau dadansoddi gwraidd y broblem ar waith. |
| **ISQM 2 - Adolygiadau Ansawdd Ymgysylltu** | Mae'r safon hon yn ymdrin a phenodiad, cymhwystra a chyfrifoldebau 'adolygwyr cymheiriaid' fel sy’n ofynnol o dan ISQM 1. |
| **ISA 220 - Rheoli Ansawdd ar Lefel Archwiliad** | Mae'r safon hon yn disodli safon bresennol, ond ymhlith pethau eraill yn cyflwyno gofynion estynedig ar y swyddogaeth arweinydd ymgysylltu ar gyfer archwiliadau unigol. |

77 Cyn belled ag y bo’n ymarferol, bydd y safonau hyn yn cael eu gweithredu yn ein holl waith trwy God Ymarfer Archwilio’r Archwilydd Cyffredinol.

# Rhan 3: Canlyniadau ansawdd archwilio

## Adolygiadau oer

78 Rydym yn disgrifio yn **Rhan 2** yr adroddiad hwn y prosesau adolygiad oer sydd gennym ar waith i werthuso ansawdd archwiliadau a gwblhawyd.

79 Rydym yn crynhoi isod canlyniadau'r adolygiadau hynny, gan ddefnyddio'r system sgorio pedwar pwynt ganlynol.

- 1 – Da
- 2a – Angen gwelliannau cyfyngedig
- 2b – Angen gwelliannau
- 3 – Angen gwelliannau sylweddol


80 Dangosyddion Perfformiad Allweddol Archwilio Cymru yw y dylai:

- 100% o archwiliadau sy'n cael eu samplu gael eu hasesu fel 2b, neu uwch; a
- 90% fel 2a neu uwch.

### Canlyniadau adolygiadau oer archwiliadau cyfrifon

81 Cyflwynir canlyniadau adolygiadau oer archwiliadau cyfrifon isod fesul blwyddyn ariannol yr archwiliad.

**Arddangosyn 5: Archwilio cyfrifon canlyniadau adolygiad oer**



83 Roedd yr alldro yn erbyn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel a ganlyn:

**Arddangosyn 6: archwilio cyfrifon – cymhariaeth Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Targed | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Aseswyd fel 2b neu uwch | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Aseswyd fel 2a neu uwch | 90% | 67% | 83% | 100% |

84 Ni nodwyd unrhyw themâu cyson gan adolygiadau oer 2019-20, ac eithrio'r angen i ddogfennau fod yn fwy eglur mewn achosion penodol, a adlewyrchir yn y sgoriau ar gyfer y flwyddyn.

85 Er bod y duedd a ddangosir uchod yn gadarnhaol, dim ond sampl o archwiliadau a ddewiswyd i'w hadolygu mewn unrhyw flwyddyn benodol y mae'n ei adlewyrchu. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod y duedd yn gyson â'n buddsoddiad parhaus mewn ansawdd archwilio, ein dull archwilio ac mewn cynorthwyo dysgu a datblygu.

## Archwilio Cyfrifon: adolygiadau QAD

86 Adolygodd y QAD ddau archwiliad 2019-20, na chawsant eu sgorio. Fodd bynnag, daeth y QAD i'r casgliad canlynol:

'Yn gyffredinol, roedd y gwaith archwilio a adolygwyd gennym o safon dda, ac roedd y ddau ymgysylltiad a adolygwyd yn dderbyniol yn gyffredinol.'

87 Y ddau fater a nodwyd gan y QAD ar gyfer y ddau archwiliad oedd:

- angen i gofnodi casgliad gwaith y timau yn fwy eglur ar y perygl o dwyll a gwallau o ran gwariant; a
- sicrhau bod gweithdrefnau pendant yn cael eu dilyn ar ddyddiad interim, bod timau archwilio yn cynnal profion addas o'r rhan sy'n weddill o'r flwyddyn archwilio.


88 Nid yw'r un o'r materion hyn yn codi pryder ynghylch cadernid y farn archwilio.

## Canlyniadau adolygiadau oer archwiliadau perfformiad

89 Nid yw gwaith archwilio perfformiad o reidrwydd yn cyd-daro â blwyddyn ariannol benodol. Cyflwynir canlyniadau adolygiadau oer isod felly trwy gyfeirio at y blynyddoedd calendr y cwblhawyd ac yr adroddwyd adolygiadau oer yn eu hystod.

90 Ni adroddwyd unrhyw adolygiadau yn 2020 oherwydd bwlch adnoddau yn dilyn ymddeoliad y Rheolwr Ansawdd, dymuniad i adolygu a gwella'r broses adolygu a dymuniad i alinio'r cylchoedd adolygu perfformiad ac archwilio cyfrifon i gynorthwyo adrodd integredig.

**Arddangosyn 7: canlyniadau adolygiad oer perfformiad**



91 Roedd alldro yn erbyn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel a ganlyn:

**Arddangosyn 8: archwilio perfformiad – cymhariaeth Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Targed | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Aseswyd fel 2b neu uwch | 100% | 100% | Amh. | 100% |
| Aseswyd fel 2a neu uwch | 90% | 89% | Amh. | 75% |

92 Mae'r adolygiadau a adroddwyd yn 2021 yn adlewyrchu datblygiadau i'n proses adolygiadau oer Archwiliadau Perfformiad i alinio yn well ein dull o ymdrin â'r egwyddorion INTOSAI ar gyfer archwilio perfformiad (gweler **Rhan 2**). Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd eithaf sylweddol i ddisgwyliadau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol – a chyfrifon ar gyfer y duedd am i lawr a ddangosir uchod – ond rydym yn credu y bydd y newidiadau yr ydym yn eu rhoi ar waith yn gwella ansawdd ein gwaith Archwilio Perfformiad yn y tymor hwy.

# Atodiad 1: Gofynion datgelu'r adroddiad tryloywder

Fel archwilydd endid buddiant cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad tryloywder sy'n cynnwys y manylion canlynol am yr archwilydd:

- ei strwythur cyfreithiol a'i berchnogaeth;
- ei strwythur llywodraethu;
- ei systemau rheoli ansawdd mewnol; a'i
- arferion sicrhau ansawdd ac annibyniaeth.

Mae'r tabl isod yn nodi sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â'r datgeliadau adrodd tryloywder sy'n ofynnol o dan Erthygl 13 Rheoliad (UE) 537/2014, sy'n rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, trwy rinwedd adran 3 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Archwilwyr Statudol ac Archwilwyr Trydedd Wlad (Diwygio) (Ymadawiad â'r UE) 2019/177.

**Arddangosyn 9: datgeliadau adroddiad tryloywder**

| Gofyniad | Ymateb |
|---|---|
| Disgrifiad o strwythur cyfreithiol a pherchnogaeth yr archwilydd statudol, os yw'n gwmni. | Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd statudol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gorfforaeth undyn. |
| Pan fo'r archwilydd statudol neu'r cwmni archwilio yn aelod o rwydwaith:<br>i. disgrifiad o'r rhwydwaith a'r trefniadau cyfreithiol a strwythurol yn y rhwydwaith;<br>ii. enw pob aelod o'r rhwydwaith sy'n gymwys ar gyfer penodiad fel archwilydd statudol, neu'n gymwys ar gyfer penodiad fel archwilydd mewn Gwladwriaeth AEE neu yn Gibraltar;<br>iii. ar gyfer pob un o aelodau'r rhwydwaith a nodwyd o dan baragraff (ii), y gwledydd lle maent yn gymwys ar gyfer penodiad fel archwilwyr neu lle mae ganddynt swyddfa gofrestredig, gweinyddiaeth ganolog, neu brif le busnes; a<br>iv. cyfanswm trosiant aelodau'r rhwydwaith a nodwyd o dan baragraff (ii) yn deillio o waith archwilio statudol neu waith cyfatebol mewn Gwladwriaethau AEE neu yn Gibraltar. | Amherthnasol. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o rwydwaith. |

| Gofyniad | Ymateb |
|---|---|
| Disgrifiad o strwythur llywodraethu'r archwilydd statudol os yw'n gwmni. | Amherthnasol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwmni.<br>Fodd bynnag, caiff fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru ei grynhoi ar dudalen 65 et seq ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21. |
| Disgrifiad o system rheoli ansawdd fewnol yr archwilydd statudol a datganiad gan y corff rheoli ar effeithiolrwydd ei weithrediad. | Gweler **Rhan 2** yr adroddiad hwn am ddisgrifiad o system rheoli ansawdd fewnol Archwilio Cymru.<br>Barn Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol Archwilio Cymru yw bod y system yn rhoi sicrwydd rhesymol i ni fod ein system rheoli ansawdd fewnol yn gweithredu yn effeithiol. |
| Dynodiad o bryd y cynhaliwyd yr adolygiad sicrhau ansawdd diwethaf y cyfeirir ato yn Erthygl 26 Rheoliad (UE) 537/2014. | Caiff canlyniadau ein hadolygiad diweddaraf o adolygiadau oer eu crynhoi yn **Rhan 3** yr Adroddiad hwn. |
| Rhestr o endidau buddiant cyhoeddus y cynhaliodd yr archwilydd statudol archwiliadau statudol ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. | Archwiliodd yr Archwilydd Cyffredinol un endid buddiant cyhoeddus yn ystod 2020-21 - Cyngor Abertawe. |
| Datganiad yn ymwneud ag arferion annibyniaeth yr archwilydd statudol sydd hefyd yn cadarnhau bod adolygiad mewnol o gydymffurfiad annibyniaeth wedi cael ei gynnal. | Disgrifir ein harferion annibyniaeth yn **Rhan 2** yr adroddiad hwn.<br>Rydym yn cadarnhau'r arferion a ddilynwyd ar gyfer archwiliadau 2020-21. |
| Datganiad ar y polisi a ddilynwyd gan yr archwilydd statudol yng nghyswllt addysg barhaus archwilwyr statudol y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 11 Atodlen 10 i Ddeddf Cwmnïau 2006. | Fel y disgrifiwyd yn **Rhan 2**, mae gennym drefniadau DPP achrededig ar waith i sicrhau ein bod yn parhau i gynnal yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gyflawni ein cyfrifoldebau. |

<table>
<tr><th>Gofyniad</th><th>Ymateb</th></tr>
<tr><td>Gwybodaeth am y sail ar gyfer gwneud taliadau cydnabyddiaeth i aelodau corff rheoli'r archwilydd statudol, pan fo'r archwilydd statudol hwnnw yn gwmni.</td><td>Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwmni archwilio.<br>Fodd bynnag, caiff gwybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol, aelodau Bwrdd ac uwch reolwyr Swyddfa Archwilio Cymru ei chrynhoi yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21.</td></tr>
<tr><td>Disgrifiad o bolisi'r archwilydd statudol yn ymwneud â chylchdroi partneriaid archwilio allweddol a staff yn unol ag Erthygl 17(7) Rheoliad (UE) 537/2014.</td><td>Caiff cyfarwyddwyr a staff sy'n gweithio ar endidau buddiant cyhoeddus eu cylchdroi bob pum mlynedd o leiaf.</td></tr>
<tr><td>Pan nad yw wedi'i ddatgelu yn ei gyfrifon, gwybodaeth am gyfanswm trosiant yr archwilydd statudol, wedi'i rannu rhwng y categorïau canlynol:<br>i. refeniw o archwiliadau statudol o gyfrifon endidau buddiant cyhoeddus ac aelodau grwpiau ymgymeriadau y mae eu rhiant ymgymeriad yn endid buddiant cyhoeddus;<br>ii. refeniw o archwiliadau statudol o gyfrifon endidau eraill;<br>iii. refeniw o wasanaethau nad ydynt yn archwiliadau a ganiateir i endidau sy'n cael eu harchwilio gan yr archwilydd statudol; a<br>iv. refeniw o wasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio i endidau eraill.</td><td>Mae dadansoddiad o'n hincwm wedi ei gynnwys yn nodiadau 1 a 2 ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21.<br>Mae'r ffi arfaethedig ar gyfer archwiliad 2020-21 o Gyngor Abertawe fel a ganlyn:<table>
<tr><td>Archwiliad o gyfrifon y Cyngor</td><td>237,000</td></tr>
<tr><td>Archwiliad perfformiad</td><td>99,310</td></tr>
<tr><td>Ardystio grantiau</td><td>30,000</td></tr>
<tr><td>Datganiad blynyddol Awdurdod Porthladd</td><td>1,887</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>£368,197</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

# Eich cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i gynorthwyo'r cyrff hynny i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Trwy ein gwaith Arfer Da, rydym yn rhannu arfer a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion o sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.

Mae ein cylchlythyr yn cynnig diweddariadau rheolaidd i chi am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.